**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC 06-02(p4)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau, 17 Hydref 2002 |
| **Amser:** | 9.00am |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3&4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl** | **PAPUR YN AMLINELLU RHAI AGWEDDAU AR Y GYFRAITH SY'N BERTHNASOL I SIPSIWN A THEITHWYR** |

**ADOLYGIAD SIPSIWN-DEITHWYR**

**Termau a ddefnyddir yn y papur hwn**

DLlC = Deddf Llywodraeth Cymru 1998

AALl = awdurdodau addysg lleol yng Nghymru

GTS 1999 = Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (SI 1999/672)

# Y Cyngor a Gomisiynwyd

Gofynnodd y papur comisiynu gan Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau i'r papur hwn gynnwys

"y fframwaith cyfreithiol yn ymwneud â Sipsiwn-deithwyr, yn benodol:

- y dyletswyddau ar ddarparwyr addysg, y gwasanaeth iechyd a llywodraeth leol i ddarparu gwasanaethau i Sipsiwn-deithwyr;
- effaith y Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol
- effaith deddfwriaeth Iawnderau Dynol
- pleidleisio mewn etholiadau a mynediad i wybodaeth
- unrhyw debygrwydd neu wahaniaethau yn y driniaeth o Sipsiwn-deithwyr a phobl ddigartref".

Bydd y Pwyllgor yn sylweddoli nad yw hyn yn cynnwys pob maes yn y gyfraith sy'n ymwneud â Sipsiwn a theithwyr neu feysydd sydd yn arbennig o berthnasol iddynt. Nid yw ychwaith yn cynnwys pwerau'r Cynulliad yn unrhyw un o'r meysydd a nodwyd.

# Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol 2000)

1. Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (1976) ("DCH"), fel y'i diwygiwyd, yn gwahardd gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, ac yn gwahardd annhegwch, ar sail hiliol yn y gwaith ac yn y ddarpariaeth o ystod eang iawn o wasanaethau cyhoeddus a phreifat. Ceir gwaharddiad cyffredinol, yn amodol ar rhai eithriadau cyfyngedig, o ran gwahaniaethu yn y ddarpariaeth o nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau i'r cyhoedd neu adran o'r cyhoedd. Enghreifftiau o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a gwmpesir yw:

(i) mynediad i unrhyw le y mae gan aelodau o'r cyhoedd yr hawl i fynd iddo neu ddefnydd ohono;

(ii) cyfleusterau addysg;

(iii) cyfleusterau cludiant neu deithio;

(iv) gwasanaethau unrhyw broffesiwn neu grefft, neu unrhyw awdurdod lleol neu awdurdod cyhoeddus arall.

2. Mae gwahaniaethu uniongyrchol, gan dorri'r DCH, yn digwydd pan fydd rhywun yn trin person arall, yn y meysydd a ragnodwyd, yn llai ffafriol, ar sail hiliol, nag y mae'n trin neu a fyddai'n trin personau eraill.

3. Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd os bydd rhywun yn gosod gofyniad neu amod ar y person, nad yw ef/hi yn gallu cydymffurfio ag ef, ac sydd, er yn ddiduedd yn ymddangosiadol, mewn gwirionedd yn golygu bod cyfran y bobl yn y grp hiliol dan sylw sy'n gallu cydymffurfio ag ef yn "sylweddol llai" na chyfran y bobl o grwpiau hiliol eraill sy'n gallu cydymffurfio. Fodd bynnag, ni fydd yn wahaniaethu os yw'r person honedig sy'n gwneud y gwahaniaethu yn gallu dangos bod modd cyfiawnhau'r gofyniad neu'r amod waeth beth fo lliw, hil, cenedligrwydd neu darddiad ethnig neu genedlaethol y person y gosodir y gofyniad neu'r amod hwn arno.

4. At ddibenion y DCH, mae gwahanu person oddi wrth bersonau eraill ar sail hiliol yn golygu ei drin ef/hi yn llai ffafriol.

5. Diffinnir "sail hiliol" fel "lliw, hil, cenedligrwydd neu darddiad ethnig neu genedlaethol".

6. Yn rhinwedd y diwygiadau a wnaed gan Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol 2000, mae bellach yn ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus a enwir i "have due regard to the need (a) to eliminate unlawful racial discrimination; and (b) to promote equality of opportunity and good relations between persons of different racial groups" wrth gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, pob awdurdod lleol, pob corff iechyd cyhoeddus a phob sefydliad addysgol a ariennir gan arian cyhoeddus, yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon.

7. Ystyriwyd bod sipsiwn yn "grp hiliol" o dan y DCH[1]. At hynny, gall triniaeth lai ffafriol sy'n gysylltiedig â'u ffordd deithiol o fyw fod yn wahaniaethu anuniongyrchol yn eu herbyn. Bydd teithwyr eraill yn cael eu diogelu os gwahaniaethir yn eu herbyn ar unrhyw un o'r "seiliau hiliol" a restrir. Fodd bynnag, ni fydd y DCH yn diogelu teithwyr nad ydynt yn Sipsiwn os cânt eu trin yn anffafriol oherwydd eu ffordd deithiol o fyw, yn hytrach nag oherwydd eu cenedligrwydd (ac ati).

# Deddf Iawnderau Dynol 1998

8. Mae'r Ddeddf Iawnderau Dynol ("DID") yn trawsosod y rhan fwyaf o'r hawliau unigol a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Iawnderau Dynol i gyfraith y DU.[2] Mae'r DID yn gwneud hyn, yn rhannol, trwy wahardd awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys cyrff preifat sy'n cyflawni rhai swyddogaethau cyhoeddus) rhag torri unrhyw un o hawliau'r Confensiwn a ymgorfforwyd yn y modd hwnnw ("yr Hawliau Confensiwn").[3]

9. Hawliau Confensiwn sy'n ymddangos yn arbennig o berthnasol i Sipsiwn/deithwyr yw:

- Erthygl 3 (gwahardd triniaeth greulon neu ddiraddiol)
- Erthygl 8 (hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, at y cartref ac at ohebiaeth)
- Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu'n heddychlon)
- Erthygl 1 o Brotocol 1 (hawl i fwynhau eiddo yn heddychlon)
- Erthygl 2 o Brotocol 1 (hawl i beidio â chael eu gwarafun o addysg).

Mewn perthynas ag Erthygl 8, mae'r Llys wedi ystyried bod "occupation of [a] caravan is an integral part of … ethnic identity as a gypsy, reflecting the long tradition of that minority of following a travelling lifestyle. This is the case even though… many gypsies increasingly settle for long periods in one place….". Felly, mae mesurau a gymerir gan awdurdod cyhoeddus, sy'n effeithio ar allu'r Sipsiwn i leoli eu carafanau heb ymyrraeth, yn rhoi ar waith yr hawl i barchu'r cartref a'r hawl i fywyd preifat (o ran cynnal a datblygu hunaniaeth person)[4]

Hefyd yn amlwg yn berthnasol i Sipsiwn a theithwyr mae Erthygl 14, sef gwahardd yn erbyn

gwahaniaethu. Effaith cynnwys hyn yn y DID yw na ddylai unrhyw awdurdod cyhoeddus yn y DU wahaniaethu yn erbyn unrhyw berson, wrth iddynt feddu ar yr hawliau eraill a'r rhyddid a nodir yn y Confensiwn, ar sail unrhyw **amgylchiad personol.**

10. Rhai enghreifftiau o’r seiliau annerbyniol yn Erthygl 14 yw hil, iaith, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, ac eiddo. Fel yn achos y DCH, gall y rheini a all ddangos eu bod yn Sipsiwn o ran hil ddibynnu ar Erthygl 14, fel y gall teithwyr o darddiad cenedlaethol penodedig. Oherwydd geiriad eang Erthygl 14, sy’n mynd y tu hwnt i gategoriau gwahaniaethu anghyfreithlon mewn deddfwriaeth gartref, mae hefyd yn bosibl y gall Sipsiwn nad ydynt yn Sipsiwn ethnig, ac sy’n cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu ffordd o fyw deithiol, apelio at Erthygl 14 mewn cysylltiad â hawl Confensiwn arall.

11.Nid yw triniaeth wahanol yn torri’r hawl yn Erthygl 14 os oes amcan a chyfiawnhad rhesymol dros hynny.

12. Felly, bydd yr Erthygl yn cael ei dorri pan fydd dau berson mewn sefyllfa wrthrychol debyg yn cael eu trin yn wahanol wrth iddynt feddu ar un o hawliau/rhyddid y Confensiwn, heb amcan neu gyfiawnhad rhesymol dros hynny. Bydd hefyd yn cael ei dorri pan fydd dau berson mewn sefyllfa wrthrychol wahanol yn cael eu trin yn yr un modd[5].

13. Gellir dibynnu ar Erthygl 14 dim ond pan fydd un o’r hawliau neu ryddid arall a ddiogelir gan y Confensiwn yn cael ei roi ar waith (megis y rhai a restrir uchod). Gall sipsiwn neu deithwyr o bosibl hawlio’n llwyddiannus fod unrhyw un o’r hawliau hynny wedi’u torri, ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad ag Erthygl 14.

14. Hyd yn hyn, ni hawliwyd yn llwyddiannus fod Erthygl 14 wedi cael ei dorri yn Llys Iawnderau Dynol Ewrop gan bobl Roma[6] neu Sipsiwn eraill, neu deithwyr. Mae achosion yn erbyn y DU wedi cynnwys nifer gan Sipsiwn a oedd wedi prynu tir er mwyn sefydlu cartref yno ond bod caniatâd cynllunio wedi’i wrthod iddynt i wneud hynny (gweler isod, yr adran o dan y pennawd "Cynllunio").

# Rhwymedigaethau Eraill y DU o ran Iawnderau Dynol

15. Mae offerynnau Iawnderau Dynol eraill sy’n rhwymo’r Deyrnas Unedig ac y dymuna’r Pwyllgor eu hystyried yn cynnwys y Confensiwn Fframwaith Diogelu Lleiafrifoedd Cenedlaethol; y Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol; a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn.

**Rhwymedigaethau Awdurdodau Lleol mewn perthynas â Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

16. Tan 1994, roedd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu digon o lety ar gyfer Sipsiwn a oedd yn byw neu'n ymgynnull yn eu hardaloedd o dan **Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968 (adrannau 6-12)**. Diddymwyd y ddyletswydd hon gan **Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994**.

17. Diddymodd Deddf 1994 hefyd **adran 70** o **Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980** a oedd yn rhoi awdurdod i'r Ysgrifennydd Gwladol ddarparu arian i awdurdodau lleol er mwyn creu safleoedd carafanau i letya Sipsiwn. Yn lle hynny, cyflwynodd Deddf 1994 bwerau newydd i awdurdodau lleol symud gwersyllwyr anawdurdodedig.

18. Mae gan awdurdodau lleol bwerau (ond nid dyletswyddau) o dan adran 24 o **Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960** i ddarparu safleoedd carafanau. Cyflwynwyd y pwer hwn i wneud iawn am y pwer a roddwyd i awdurdodau lleol yn adran 23 o'r un Ddeddf i wahardd carafanau rhag gwersylla ar dir comin. Dyma oedd cyrchfan arferol y Sipsiwn yn flaenorol.

19. Mae Cylchlythyr 76/94 y Swyddfa Gymreig (Cylchlythyr Adran yr Amgylchedd 18/94) "Polisi Safleoedd Sipsiwn a Gwersylla Anawdurdodedig" yn ymwneud â phwerau statudol o dan Ddeddf 1994. Mae'n nodi'r ymagwedd gyffredinol i'w mabwysiadu gan awdurdodau lleol o safbwynt Sipsiwn ac yn arddel polisi o oddefgarwch tuag at wersylloedd anawdurdodedig y Sipsiwn.

20. Mae gan awdurdodau lleol hefyd bwerau o dan **adran 269** o **Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936** i roi trwyddedau i ganiatáu carafanau ar y tir. Mae'n drosedd i aros ar safle am fwy na 42 o ddiwrnodau mewn unrhyw ddeuddeg mis heb drwydded.

21. Mae **Adran 78** o **Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adnewyddu 1996** yn caniatáu i'r awdurdod tai gynnig cymorth gyda thrwsio cartrefi mewn perthynas â chychod preswyl a chartrefi symudol. Mae **Rheoliadau Cymorth Trwsio Cartref (Estyn) 1998** (sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr) yn llacio'r gofyniad o ran preswylio fel y gellir cynnig cymorth gyda thrwsio cartrefi i'r rhai sy'n byw mewn cartrefi symudol ar safleoedd awdurdodau lleol i Sipsiwn.

22. O dan **adran 175(2)** o **Ddeddf Tai 1996** mae person yn ddigartref a gall fod yn gymwys i gael t os yw ei gartref yn adeilad symudadwy a bod dim hawl na chaniatâd ganddo i'w roi yno neu i fyw yno.

Gweler isod o dan "Cynllunio".

# Cynllunio

23. Mae Cylchlythyr 2/94 y Swyddfa Gymreig (yn union yr un fath â Chylchlythyr 1/94 Adran yr Amgylchedd o safbwynt Lloegr) sef ‘Safleoedd Sipsiwn a Chynllunio’, yn nodi’r ystyriaethau polisi ar gyfer delio â cheisiadau am safleoedd ‘Sipsiwn’ arfaethedig. Efallai y bydd angen gwneud ceisiadau cynllunio lle caiff tir ei brynu gan Sipsiwn unigol gyda’r bwriad o ddarparu man lle y gallant hwy a’u teuluoedd wersylla’n gyfreithlon am gyfnod sydd fwy neu lai yn estynedig.

Mae’r diffiniad o ‘sipsi’ a ddefnyddir yn y Cylchlythyr yr un fath ag sydd yn adran16 o Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968, er gwaethaf y ffaith fod yr adran honno wedi’i diddymu ers hynny: "persons of nomadic habit of life, whatever their race or origin, but does not include members of an organised group of travelling showmen, or of persons engaged in travelling circuses, travelling together as such". Cadwyd at yr un diffiniad yn adran 26 o Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960. Mae'r rhannau o'r Ddeddf sy’n goroesi’n poeni mwy am drefniadau mewnol safleoedd cyfreithlon nag egwyddor datblygu.

24. Cynghorir Awdurdodau Cynllunio Lleol ("ACLl") yn y Cylchlythyr, er gwaethaf diddymu’r ddyletswydd statudol ar y pryd i ddarparu safleoedd, wrth baratoi cynlluniau ar gyfer datblygu dylai ACLl barhau i nodi’r ystyriaeth a wnaethant i ddiwallu anghenion llety Sipsiwn. Dylid ystyried eu dyletswyddau statudol yn ymwneud â digartrefedd wrth ffurfio eu cynigion. Mae’r Cylchlythyr yn datgan:

"Repeal of the statutory duty will make it all the more important that LPAs make adequate gypsy site provision in their development plans, through appropriate use of locational and/or criteria based-policies and provide a general framework for site provision" (paragraff 9).

25. Mae’r Cylchlythyr yn nodi meini prawf amrywiol ar gyfer ystyried ceisiadau gan ACLl ac mae’n darparu cyngor ar orfodi cynllunio a materion eraill.

26. Mae Polisi Cynllunio Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mawrth 2002, yn datgan:

> "9.2.17 Local authorities must indicate the regard they have had to meeting the accommodation needs of gypsy families. It is important that local planning authorities have policies for the provision of gypsy sites in their [Unitary Development Plans]. In drawing up policies local planning authorities should consult with providers of social housing, representatives of gypsies and travellers and landowners in areas likely to be appropriate for gypsy sites."

27. Yn ogystal â swyddogaethau mewn perthynas â phennu polisi cynllunio ar gyfer Cymru, sy’n cael effaith ar ddyfarnu neu wrthod ceisiadau cynllunio unigol, mae gan y Cynulliad swyddogaethau mewn perthynas ag apeliadau yn erbyn gwrthod ceisiadau cynllunio yng Nghymru. Gellir darparu cyngor cyfreithiol ychwanegol ar yr agweddau hyn os yw’r Pwyllgor yn dymuno hynny.

# Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Plant

> 28. Gall y rhwymedigaethau canlynol o ran cyfraith gofal plant (o safbwynt darparu gwasanaethau plant) fod yn arbennig o berthnasol i Sipsiwn a theithwyr.

Adran 17 Deddf Plant 1989: Yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar bob awdurdod lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant mewn angen o fewn eu hardal a (cyn belled ag y bo hynny’n gyson â’r ddyletswydd honno) i wella magwraeth plant o’r fath gan eu teuluoedd, drwy ddarparu amrywiaeth a lefel o wasanaethau sy’n addas ar gyfer anghenion y plant hynny.

Adran 22(5) (c) Deddf Plant 1989: Pan fydd awdurdod lleol yn "gofalu am" blentyn, mae’n ofynnol, cyn gwneud unrhyw benderfyniadau mewn perthynas â’r plentyn hwnnw, rhoi ystyriaeth briodol i grefydd y plentyn, ei darddiad hiliol a’i gefndir diwylliannol a ieithyddol.

Atod. 2 Par. 11 Deddf Plant 1989: Mae’n ddyletswydd ar awdurdod lleol i ystyried y grwpiau hiliol y mae’r plant mewn angen yn perthyn iddynt, wrth wneud trefniadau ar gyfer darpariaeth gofal dydd neu wrth annog personau i fod yn rhieni maeth awdurdodau lleol.

## Addysg

29. Ychydig o **rwymedigaethau** mewn deddfwriaeth addysg sy’n ymwneud yn benodol â darparu gwasanaethau i Sipsiwn a theithwyr. Mae eithriad i’w weld yng Nghymru yn neddfwriaeth y Cynulliad Cenedlaethol – Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) 2002 (SI 2002/1187 W. 135). Mae’r rhain yn rhoi rhwymedigaeth ar AALl i gynnwys yn eu Cynlluniau Datblygu Addysg ("Cynlluniau Strategol Addysg" yng Nghymru) wybodaeth ynghylch nifer plant teithwyr sy’n cael eu haddysgu o fewn eu hysgolion, y trefniadau ar gyfer monitro’r rhifau hynny a gwybodaeth ynghylch arhosiad plant o’r fath ar gyfartaledd. Mae hyn yn cynorthwyo gyda’r gwaith o gynllunio er mwyn diwallu anghenion y plant hynny.

30. Mae’n **ddyletswydd** ar AALl i gyfrannu tuag at ddatblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol a chorfforol y gymuned drwy sicrhau darpariaeth o addysg gynradd ac uwchradd i ddiwallu anghenion eu hardaloedd – adran 13 Deddf Addysg 1996 ("DA 1996"). **Rhaid** iddynt hefyd arfer eu swyddogaethau addysg gyda golwg ar hyrwyddo safonau uchel – adran 13A. Mae’r ddyletswydd hon yn berthnasol i bob plentyn.

31. Fodd bynnag, mae hefyd yn **ddyletswydd** ar AALl o dan adran 19 i wneud trefniadau ar gyfer addysg y plant hynny sydd mewn oedran ysgol gorfodol mewn ysgol neu rywle arall, nad ydynt oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu reswm arall, yn derbyn addysg am unrhyw gyfnod oni bydd trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud ar eu cyfer. Wrth wneud trefniadau o'r fath, rhaid i AALl ystyried unrhyw ganllawiau gan y Cynulliad. Gellir gwneud trefniadau arbennig o dan yr adran hon ar gyfer plant teithwyr.

32. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol **bwerau** i roi grantiau i AALl a sefydliadau addysg bellach er mwyn hyrwyddo a hwyluso addysg Sipsiwn a Theithwyr – gweler adran 488 o Ddeddf Addysg 1996 (DA 1996) a'r Rheoliadau Addysg (Grantiau) (Teithwyr a Phersonau Digartref) 1993 (SI 1993/359) ac adran 210 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, a'r Rheoliadau a wnaed oddi tanynt 1993 (SI 1993/569), wedi'u cymryd ynghyd â GTS 1999. Mae manylion am y cynllun grant cyfredol yng Nghylchlythyr 52/90 y Swyddfa Gymreig a'i atodiad.

33. Caiff y rhain (a phwerau grant eraill) eu disodli gan bwerau cyffredinol newydd ysgubol pan ddaw darpariaethau perthnasol Deddf Addysg 2002 i rym.

34. Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â phlant ag anghenion addysgol arbennig ("AAA") yn berthnasol i blant Sipsiwn/teithwyr fel y mae i blant eraill. Er nad yw'r ffaith fod plentyn yn cael ei addysgu drwy gyfrwng iaith sy'n wahanol i iaith y cartref yn golygu bod gan y plentyn AAA, rhaid mynd i'r afael bob amser ag anawsterau iaith plentyn o'r fath fel rhan o'r ddyletswydd i ddarparu addysg addas ar ei gyfer. Mae cydweithwyr polisi wedi rhoi gwybod i Swyddfa'r Cwnsler fod teuluoedd teithwyr ar y cyfan yn amharod i fod yn rhan o'r broses datganiadau AAA.

35. Mae gan bob rhiant ddyletswydd statudol i sicrhau addysg i'w blentyn/phlentyn drwy fynychu ysgol yn rheolaidd, ac mae hyn yn berthnasol i Sipsiwn a theithwyr yn yr un modd ag y mae'n berthnasol i unrhyw riant – gweler adran 7 o DA 1996. Pan fydd plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol, mae'r rhieni yn cyflawni trosedd os ydynt yn methu â sicrhau ei fod ef/hi yn mynychu'n rheolaidd – adran 444. Ond gellir cyflwyno amddiffyniadau. At ddibenion presennol mae is-adran (6) yn berthnasol. Mae'n nodi bod yn rhaid rhyddfarnu rhiant sydd heb gartref sefydlog os y gall brofi bod ei swydd yn ei wneud/gwneud yn ofynnol iddo/i deithio, bod y plentyn wedi mynychu'r ysgol mor aml ag y mae'r swydd yn caniatáu hynny a (lle mae'r plentyn wedi cyrraedd 6 oed) bod y plentyn wedi mynychu o leiaf 200 o weithiau yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Mae gorfodi presenoldeb mewn ysgol yn un o swyddogaethau'r AAL

36. Gall AALl **atal** defnyddio plentyn mewn modd a allai fod yn niweidiol i iechyd y plentyn neu fel arall ei wneud/gwneud yn anghymwys i dderbyn mantais lawn yr addysg a ddarperir ar ei gyfer/chyfer – adran 559 DA 1996.

37. O safbwynt darparu cymorth a gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, mae Deddf Dysgu a Medrau 2000 yn darparu bod y Cynulliad Cenedlaethol i gyhoeddi **cyfarwyddiadau** i

awdurdodau lleol **yn ei gwneud yn ofynnol** iddynt ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid, ac wrth wneud hynny, i ystyried Canllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r ymadrodd "gwasanaethau cymorth ieuenctid" yn golygu gwasanaethau a fydd ym marn y Cynulliad Cenedlaethol yn annog, galluogi neu gynorthwyo pobl ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg, i fanteisio ar gyfleoedd am waith ac i gyfranogi'n effeithiol ym mywydau eu cymunedau.

38. Mae'r Canllawiau ar "Ymestyn Hawliau" sydd ar fin cael eu cyhoeddi (i gefnogi Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Cymru) 2002 – yn dod i rym 1 Medi 2002 - yn cyfeirio at bwysigrwydd sicrhau y darperir yn benodedig ar gyfer teithwyr ifanc. Mae cyfeiriad penodol atynt ym mharagraffau 23 a 28 o'r Canllawiau fel un o nifer o grwpiau o bobl ifanc sy'n "anodd eu cyrraedd". Y bwriad yw bod Partneriaethau Pobl Ifanc lleol yn ystyried y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau a chymorth i deithwyr ifanc a'u hanghenion wrth ymgymryd â chynllunio yn y dyfodol a datblygu darpariaeth. Bydd hyn yn cynnwys annog teithwyr ifanc i roi eu sylwadau ar wasanaethau presennol (gan gynnwys agweddau megis darparu gwybodaeth a chael mynediad i wasanaethau "prif ffrwd" megis tai, budd-daliadau a iechyd) a bylchau real neu gydnabyddedig, a gweithredu ar y wybodaeth a dderbynnir yn sgil y broses.

39. O safbwynt y gwasanaeth gyrfaoedd, nid oes unrhyw rwymedigaethau arbennig ar gyfer plant teithwyr.

40. Nid oes unrhyw ddyletswyddau statudol ar Gyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant i Gymru (y Cyngor) o dan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (ac eithrio darpariaeth cyfle cyfartal sy'n cyfeirio, ymysg pethau eraill, at hil – gweler adran 42). Mae darpariaethau ar gyfer cymeradwyo/gosod cynlluniau a strategaethau gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac ar gyfer cyhoeddi cyfarwyddiadau ac ati a allai alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i'w gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd camau wedi'u targedu at Sipsiwn a theithwyr. Fodd bynnag, mae cydweithwyr polisi wedi rhoi gwybod i Swyddfa'r Cwnsler na osodwyd unrhyw ofynion sy'n arbennig o berthnasol i'r ymarfer hwn gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan unrhyw un o'r mecanweithiau hyn hyd yma.

# Iechyd

41. Nid oes unrhyw ddyletswyddau na phwerau yn y gyfraith wedi'u cyfeirio'n benodol at ofal iechyd Sipsiwn neu deithwyr; mae'r sefyllfa yn gyfreithiol yr un fath ar gyfer Sipsiwn a theithwyr ag ydyw i'r cyhoedd.

42. Mae awdurdodau iechyd yn gyfrifol am ddarparu gofal ar gyfer pawb yn eu hardal, p'un a ydynt yn byw yno'n barhaol ai peidio. Gall pobl sy'n teithio fel ffordd o fyw ddefnyddio gwasanaethau meddyg teulu trwy fynd i unrhyw feddygfa a llenwi ffurflen ar gyfer preswylwyr dros dro.

# Mynediad i wybodaeth

44. Mae hawl Sipsiwn a theithwyr i wybodaeth yr un fath â hawl y cyhoedd. Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys Deddf Diogelu Data 1998, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 1992 (fel y'i diwygiwyd) a (pan fydd mewn grym yn llawn) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae gan y Cynulliad God Ymarfer gwirfoddol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd weld Gwybodaeth (mabwysiadwyd y fersiwn diweddaraf yn y cyfarfod llawn ar 8 Mai 2001).

# Etholiadau

## Hawl i bleidleisio

45. Mae'r hawl i bleidleisio mewn unrhyw etholiad yng Nghymru (etholiad Seneddol, y Cynulliad, Ewrop neu awdurdod lleol) yn dibynnu (ymysg pethau eraill) ar gymhwyster preswylio.

46. Mae'n rhaid i'r sawl sy'n dymuno pleidleisio mewn pleidlais benodedig gofrestru yn y gofrestr berthnasol o etholwyr ar ddyddiad y bleidlais honno. Er mwyn cofrestru, rhaid i'r person fod yn byw yn yr etholaeth neu yn yr ardal ar y dyddiad y mae'n gwneud cais i gael ei gofrestru (neu ar ddyddiad tybiedig, 15 Hydref bob blwyddyn, pan fydd y swyddog cofrestru yn cynnal canfasiad). Diwygiodd Deddf Cynrychioli'r Bobl ("DCB 2000") Ddeddf Cofrestru'r Bobl 1983 er mwyn caniatáu cofrestriadau a diwygiadau eraill ar y gofrestr drwy gydol y flwyddyn, yn hytrach na thrwy gyfeiriad at ddyddiad sefydlog, fel o'r blaen. Mae hyn yn ddefnyddiol i bobl sy'n teithio fel ffordd o fyw.

47. Gall sipsiwn neu deithwyr sydd â chyfeiriad confensiynol, ond sy'n teithio fel ffordd o fyw, wynebu problemau wrth geisio profi eu bod yn breswyliaid, neu gallant ganfod bod y swyddog cofrestru yn ystyried yn ddiweddarach eu bod yn byw yno'n ysbeidiol.

48. Ymddengys y gall sipsiwn neu deithwyr heb gyfeiriad confensiynol ddefnyddio darpariaethau DCB 2000 a luniwyd i hwyluso pleidleisio gan "bersonau digartref". Mae Adran 7B o DCB 2000 yn caniatáu i bersonau nad ydynt yn byw mewn unrhyw gyfeiriad yn y DU gofrestru drwy wneud datganiad bod ganddynt gysylltiad lleol, sy'n parhau'n ddilys am 12 mis (neu hyd nes y caiff ei ddileu neu y caiff datganiad arall o'r fath ei wneud mewn etholaeth neu ardal arall). Rhaid i'r datganiad ddatgan cyfeiriad, neu fan agos iddo yn y DU, lle mae'r person yn gwario rhan sylweddol o'i amser fel arfer. Rhaid iddo hefyd ddatgan cyfeiriad lle y gellir anfon gohebiaeth gan y swyddog cofrestru, neu ddatgan bod y person yn barod i gasglu gohebiaeth o bryd i'w gilydd o swyddfa'r swyddog cofrestru.

49. Ar y llaw arall, gall Sipsiwn/deithwyr, nad oes ganddynt fan lle y gallant fyw yn gyfreithlon yn yr ardal, gofrestru mewn dull "confensiynol". Mae'r llysoedd wedi ystyried y gall person 'breswylio' rhywle at ddibenion hawl i bleidleisio, hyd yn oes os yw ef/hi yn gwneud hynny'n anghyfreithlon ac y gellir ei symud ymlaen yn fuan[7].

-

## Pleidleisio

50. Gall pleidleisio trwy ddirprwy ymddangos yn arbennig o berthnasol i bobl sy'n teithio fel ffordd o fyw, ac ymestynwyd ar yr hawl i bleidleisio trwy ddirprwy gan DCB 2000 a diwygiadau i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 1999. Nid oes gan y personau sydd wedi datgan bod ganddynt gysylltiadau lleol (gweler uchod) y dewis i bleidleisio trwy ddirprwy am gyfnod, ond dim ond yn achos rhai etholiadau. Mae pleidleisio trwy ddirprwy wrth gwrs yn dibynnu ar gael rhywun addas i'w benodi fel dirprwy.

51. Gall rhywun sy'n pleidleisio gael ei helpu gan berson arall (aelod o'r teulu fel rheol) os na alla bleidleisio ei hunan oherwydd, ymysg pethau eraill, na all ddarllen.

**Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol**

**13 Medi 2002**

---

[1] CRE v Dutton [1989] 1All ER 306

[2] Confensiwn Diogelu Iawnderau Dynol a Rhyddid Sylfaenol, a lofnodwyd yn Rhufain ar 4 Tachwedd 1950.

[3] Gwaherddir cyrff preifat sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus rhag torri hawliau Confensiwn wrth iddynt arfer eu swyddogaethau cyhoeddus yn unig.

[4] Gweler Chapman v UK, ECHR, Rhif Cymhwysiad 27238/95, Dyfarniad 18 Ionawr 2001, ym mharagraff 73.

[5] Gweler Thlimmenos v Greece, ECHR *Reports of Judgments and Decisions 2000-IV*, (Roedd cyfraith Gwlad Groeg yn gwahardd personau a gollfarnwyd rhag cael eu derbyn fel cyfrifyddion siartredig; ceisydd a gollfarnwyd o drosedd yn deillio'n uniongyrchol o'i grefydd (Tystion Jehofa – heddychiaeth –

trosedd mewn perthynas â gwasanaeth militaraidd); ystyried torri Erth. 14 a gymerir ar y cyd ag Erth 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd) i'w drin yn yr un modd, mewn perthynas â chymhwyster fel cyfrifydd, fel personau a gollfarnwyd o droseddau eraill).

[6] O fewn adrannau Cyngor Ewrop a'r Sefydliad Diogelwch a Chydweithredu yn Ewrop (OSCE). Mae'r enwau "Roma a Sinti" yn cael eu ffafrio i "Sipsiwn". Lluniodd Uwch Gomisiynydd Lleiafrifoedd Cenedlaethol yr OSCE Adroddiad (cyhoeddwyd 7 Ebrill 2000) ar Sefyllfa'r Roma a'r Sinti yn Ardal OSCE, sy'n delio'n benodol â'r sefyllfa yn y DU.

[7] Mae'r gyfraith-achosion hon yn rhagflaenu DCB 2000 a chyflwyno'r hawl i wneud

datganiad o gysylltiad lleol. Felly, nid yw'n glir a fyddai'r llysoedd bellach yn mynd ar ôl hyn.